Deloitte.

REFORM




# Sefyllfa’r Wladwriaeth 2024: Cymru

Sylwadau gan y bobl sy’n ei defnyddio a’r bobl sy’n ei rhedeg

# Cynnwys


Rhagymadrodd 2

Crynodeb gweithredol 3

Barn y cyhoedd am y sector cyhoeddus 7

Cipolwg gan arweinwyr y sector cyhoeddus 19

Y trywydd tuag at sero net 26

Casgliad: gwersi i sector cyhoeddus Cymru o'r tu mewn 38

Cysylltiadau 42


**Methodoleg**
Mae *Sefyllfa'r Wladwriaeth* yn cyfuno dau fath o ymchwil i roi golwg ar y wladwriaeth gan y bobl sy'n dibynnu arni a'r bobl sy'n ei rhedeg.

Er mwyn deall agweddau'r cyhoedd, comisiynodd Deloitte a Reform Ipsos UK, a gynhaliodd arolwg ar-lein o 5,815 o oedolion yn y DU rhwng 16 a 75 oed rhwng 27 Hydref a 1 Tachwedd 2023. Gosodwyd cwotâu i adlewyrchu proffil hysbys poblogaeth o oedolion all-lein y DU a chyflawnwyd sampl ategol ym mhob un o wledydd y DU. Cafwyd cyfanswm o 821 o ymatebion yn yr Alban, 713 yng Nghymru, a 420 yng Ngogledd Iwerddon. Ar gyfer ffigurau'r DU, mae'r canlyniadau wedi'u pwysoli'n ôl i'r gyfran gywir ar gyfer pob gwlad. Lle nad yw'r ymatebion yn rhoi cyfanswm o 100, mae hyn oherwydd talgrynnu cyfrifiadurol neu gwestiynau sy'n gofyn am ddewis atebion lluosog.

Er mwyn dod â phersbectif strategol, mae ein hymchwil ansoddol yn cynnwys cyfweliadau â mwy na 100 o arweinwyr yn y llywodraeth ac mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys uwch-weision sifil, prif weithredwyr cynghorau, arweinwyr y GIG, a chynrychiolwyr etholedig. Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2023.

**Barn y cyfweleion eu hunain a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Deloitte neu Reform.**

# Rhagymadrodd

**Ers ei hargraffiad cyntaf yn 2012, mae *Sefyllfa'r Wladwriaeth* wedi gwneud sylwadau ar ddegawd o heriau i Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus. O gyni i COVID-19 i'r argyfwng costau byw, mae'r sector cyhoeddus wedi brwydro trwy rai blynyddoedd di-baid o galedi gyda gwytnwch a phwrpas.**

Mae'r blynyddoedd hynny wedi gadael etifeddiaeth anodd. Mae'r argraffiad hwn o *Sefyllfa'r Wladwriaeth* yn dod i'r casgliad bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn mynd i'r afael ag effaith gronnus argyfyngau olynol, yn ogystal â'r gostyngiadau mewn pŵer gwario, y cynnydd mewn galw, a'r heriau gweithlu a ddaeth yn eu sgil. Ond mae hefyd yn darganfod optimistiaeth wirioneddol: mae arweinwyr y sector cyhoeddus yn gweld cyfle i Gymru os gall y wlad fanteisio ar ei chryfderau.

Eleni mae *Sefyllfa'r Wladwriaeth* hefyd yn edrych yn arbennig ar y siwrnai i sero net. Mae'n amlwg bod ffocws cliriach erbyn hyn ar raddfa'r daith sydd o'n blaenau, ac mae llywodraethau ledled y byd yn teimlo'r ergydion cyntaf ar y llwybr tuag ato.

Yma yng Nghymru ac ar draws gweddill y DU, mae ein harolwg yn tynnu sylw at angen dybryd i'r llywodraethau ymgysylltu â'r cyhoedd o ran yr hyn y mae sero net yn ei olygu iddynt hwy a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i helpu i achub y blaned.

Mae'r adroddiad hwn i Gymru yn dilyn adolygiad y DU gyfan, y gellir ei ddarllen ochr yn ochr â'r adroddiad hwn i gael persbectif ehangach.





**Liz Jones**
Uwch Bartner i Gymru
Deloitte



**Ian Howse**
Uwch Bartner i Gymru
Deloitte



**Charlotte Pickles**
Cyfarwyddwr
Reform

# Crynodeb gweithredol

Mae *Sefyllfa'r Wladwriaeth* yn dwyn ynghyd arolwg o gyhoedd y DU ochr yn ochr â chyfweliadau ag arweinwyr llywodraeth. Mae'r cyfuniad hwn o ymchwil yn rhoi golwg ar y sector cyhoeddus gan y bobl sy'n ei ddefnyddio a'r bobl sy'n ei redeg.

Holodd ein harolwg, a gynhaliwyd gan Ipsos UK, 5,815 o oedolion y DU am eu hagweddau at lywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus. Gosodwyd cwotâu i adlewyrchu proffil hysbys poblogaeth oedolion all-lein y DU a chyflawnwyd sampl ategol ym mhob un o wledydd y DU, gan fynd â maint y sampl i 713 o ymatebion yng Nghymru.

Fe wnaethom hefyd gyfweld â mwy na 100 o arweinwyr sector cyhoeddus, gan gynnwys uwch-weision sifil, prif weithredwyr cynghorau, cynrychiolwyr etholedig, ac arweinwyr y GIG, ym mhob gwlad yn y DU.

Ein canfyddiadau allweddol yw:

**Ychydig iawn o gonsensws sydd yng Nghymru ar y cydbwysedd treth a gwariant a ffefrir.**
Canfu ein harolwg fod pobl yng Nghymru wedi'u rhannu rhwng y rhai y byddai'n well ganddynt wariant uwch, y rhai y byddai'n well ganddynt drethi is, a'r rhai sy'n meddwl bod y cydbwysedd presennol yn iawn. Mae hynny'n cyferbynnu â'r gwledydd datganoledig eraill – mae'n well gan gyhoedd yr Alban fwy o wariant uwch tra byddai'n well gan gyhoedd Gogledd Iwerddon drethi is.

**Mae'n bosib y bydd y sefyllfa o ran gwariant yn rhoi sioc i'r cyhoedd yng Nghymru.**
Mae mwy na hanner y cyhoedd yng Nghymru yn disgwyl i wariant y llywodraeth aros yr un fath neu fynd i fyny yn y blynyddoedd i ddod. Mae hynny'n cyferbynnu â'r safbwyntiau a glywsom ymhlith arweinwyr y sector cyhoeddus, sy'n rhagweld cyfyngiadau ar wariant yn y tymor byr i'r tymor canolig, o ystyried cyflwr y cyllid cyhoeddus.

**Mae hyder yn Llywodraeth Cymru wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – ond mae'n parhau i fod yn gymharol gryf.**
Ers ein harolwg diwethaf ar ddiwedd 2022, mae lefelau hyder yn Llywodraeth Cymru ymhlith ei dinasyddion ei hun wedi gostwng o ddigidau dwbl mewn pump o'r chwe maen prawf rydym yn eu mesur. Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl y gostyngiad hwnnw, mae mwy o hyder yn Llywodraeth Cymru o hyd nag yn llywodraethau'r DU a Gogledd Iwerddon.

**Mae pryderon y cyhoedd yn cynyddu ynghylch tai.**
Mae'r cyhoedd yng Nghymru eisiau i'r llywodraeth flaenoriaethu costau byw a rhestrau aros y GIG cyn unrhyw beth arall yn y blynyddoedd i ddod. Canfu ein harolwg hefyd fod canran y bobl sydd am weld gwelliannau yn y tai fforddiadwy sydd ar gael wedi cynyddu 11 y cant ers ein harolwg diwethaf ar ddiwedd 2022.

**Mae pobl eisiau gwasanaethau cyhoeddus y gallant gael mynediad iddynt ac sy'n delio â chwynion pan aiff pethau o chwith.**
Gofynnodd ein harolwg i'r cyhoedd beth sydd angen ei wella yn eu gwasanaethau cyhoeddus. Y prif atebion oedd bod angen i wasanaethau fod yn hygyrch, bod angen clywed cwynion, a bod angen i wasanaethau fod yr un fath ar draws y wlad – ond mae ganddynt lawer llai o ddiddordeb yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu rhedeg neu yn pwy sy'n eu rhedeg.

**Mae angen i'r llywodraeth flaenoriaethu i gyfateb ei dyheadau i'w hadnoddau.**
Dywedodd arweinwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru wrthym fod cyllid y weinyddiaeth ddatganoledig yn anghynaliadwy. Buont yn siarad am angen brys ac wrth law i'r llywodraeth flaenoriaethu – a allai olygu atal rhai rhaglenni – a gwneud dewisiadau anodd am wariant.

**Mae gan Gymru optimistiaeth a chyfle – os gall feddwl o safbwynt hirdymor, cydweithio, a chysylltu llywodraeth â busnes.**
Er i'n trafodaethau ymchwil archwilio heriau difrifol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, yn ddiamau roedd y rhai a gyfwelwyd yn obeithiol ar gyfer y dyfodol. Roeddent yn dadlau bod angen i Gymru feddwl yn y tymor hwy, cydweithio o fewn y sector cyhoeddus, a chysylltu llywodraeth a busnes yn well er mwyn ffynnu yn y blynyddoedd i ddod.

**Nid oes gan dri chwarter o bobl Cymru fawr o hyder yn nhargedau sero net Llywodraeth y DU.**
Pan ofynnwyd a fydd y DU yn cyrraedd ei tharged o allyriadau sero net erbyn 2050, dywedodd 74 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru nad ydynt yn hyderus y cyrhaeddir y garreg filltir. Mae lefelau tebyg ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd ei tharged.

**Mae sero net yn broblem ynni a busnes.**
Gofynnodd ein harolwg i'r cyhoedd yng Nghymru beth sydd angen i'r llywodraeth ei wneud i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Yr atebion mwyaf poblogaidd oedd newid defnydd ynni o danwydd ffosil a rheoleiddio busnes. Ac o ran camau gweithredu y gall unigolion eu cymryd, mae'r cyhoedd yn llawer mwy tebygol o ddweud y byddant yn ailgylchu mwy gartref na gwneud dewisiadau eraill, mwy arwyddocaol o ran ffordd o fyw, fel hedfan neu yrru llai.



# *Casgliadau:* gwersi i'r sector cyhoeddus o'r tu mewn

Roedd ein cyfweliadau ag arweinwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru a gweddill y DU yn dod â phum gwers i'r amlwg ar gyfer dyfodol y sector o'r tu mewn iddo. Mae'r rhain fel a ganlyn:

**1. Ailosod y system i ddod â'r modd argyfwng i ben.**
Mae llawer o'r sector cyhoeddus wedi treulio blynyddoedd yn darparu ymatebion tactegol i amhariadau olynol gan rymoedd allanol. O'r herwydd, mae angen 'ailosod' ar y sector cyhoeddus i'w helpu i symud tuag at feddwl yn y tymor hwy a chyflwyno cynllun cydgysylltiedig, sector cyfan ar gyfer y dyfodol.

**2. Gwella cynhyrchiant y sector cyhoeddus drwy ddileu yn gyntaf ffyrdd o weithio sy'n ei rwystro.**
Bydd gwthio cynhyrchiant y sector cyhoeddus yn rhan hanfodol o wneud mwy gyda llai. Mae ein cyfweliadau'n awgrymu y dylai ymgyrch cynhyrchiant ddechrau gyda mynd i'r afael â ffyrdd o weithio sy'n gynhenid yn y sector ac sy'n ei rwystro. Mae hynny'n golygu mwy o flaenoriaethu, trefniadau ariannu tymor hwy, mesurau ataliol ar draws gwasanaethau cyhoeddus, a chynlluniau gwariant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

**3. Gwneud cyflawni yn seren arweiniol ar gyfer diwygio.**
Mae swyddogion yn credu bod amgylchedd atebolrwydd, craffu a risg y sector yn ei gwneud yn fwy anodd nag y dylai fod i gyflawni pethau – boed yn brosiectau mawr neu'n cyflawni busnes fel arfer. Dylai diwygiadau'r llywodraeth yn y dyfodol felly bwysleisio cyflawni fel rhywbeth sy'n ganolog i ddiben y llywodraeth.

**4. Peidio â rhoi'r gorau i drawsnewid digidol.**
Dywedodd arweinwyr y sector cyhoeddus wrthym fod angen iddynt ddatrys y problemau newydd ym maes trawsnewid digidol a ddaw yn sgil aeddfedrwydd digidol y sector cyhoeddus. Maent yn cynnwys cysoni ansawdd data a'i saernïaeth ag ansawdd profiad y defnyddiwr a pharhau i ddatrys problemau etifeddol.

**5. Manteisio ar botensial caffael.**
Mae'r Ddeddf Caffael yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi agor potensial newydd i gaffael roi hwb i werth arian trethdalwyr, gwella gweithio mewn partneriaeth â chyflenwyr, a pharhau â'r ymgyrch tuag at gynhyrchu gwerth cymdeithasol drwy gontractau. Er mwyn manteisio ar bosibiliadau caffael, bydd angen ffyrdd newydd beiddgar o weithio, ymagwedd aeddfed tuag at risg, ac uchelgais gwirioneddol yn swyddogaethau caffael a masnachol y sector – yn ogystal â'r arweinyddiaeth i wneud i hyn ddigwydd.

Mae *Sefyllfa'r Wladwriaeth* 2024 yn dod i'r casgliad bod arweinwyr y sector cyhoeddus am i'r llywodraeth 'ailosod' y system a rhoi blynyddoedd o argyfyngau ac ymatebion tactegol y tu ôl iddynt. Yn y pen draw, mae swyddogion ar draws y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus am i'r sector addasu i'w heriau trwy flaenoriaethu'n fwy bwriadol, wrth ganolbwyntio mwy ar y tymor hwy a'r hyn a gyflawnir.

Byddai ailosodiad 'CTRL+ALT+DEL' yn galluogi'r sector i feddwl yn nhermau:

- **CTRL** gwell **rheolaeth** ar ganlyniadau drwy bwysleisio pwysigrwydd cyflawni.
- **ALT** rhoi hwb i gynhyrchiant drwy archwilio ffyrdd **amgen** o weithio.
- **DEL** blaenoriaethu'r hyn y mae'r llywodraeth yn ei wneud i **ddileu** gweithgareddau llai effeithiol.



# *Casgliadau:* gwersi i'r sector cyhoeddus o'r tu mewn i'r sector ar gyfer y ffordd i sero net

Roedd ein cyfweliadau ag arweinwyr y sector cyhoeddus hefyd yn datgelu eu gwersi eu hunain o'r tu mewn i'r sector ar gyfer y ffordd i sero net. Gyda'i gilydd, mae'r cyfweliadau'n cyfeirio at bum argymhelliad:

**1. Ymgysylltu â'r cyhoedd am y daith hir.**
Mae gan y cyhoedd ran hanfodol i'w chwarae wrth gyflawni sero net ac mae angen iddo ddeall y goblygiadau a'r disgwyliadau ar aelwydydd. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i'r llywodraeth sefydlu cynllun cyfathrebu cenedlaethol, aml-ddegawd i ymgysylltu â'r cyhoedd, annog newid ymddygiad, a'i baratoi ar gyfer y ffordd i sero net.

**2. Sicrhau bod sero net yn flaenoriaeth sector cyfan ac yn ganolog i benderfyniadau sy'n hanfodol i fusnes.**
Dywedodd arweinwyr wrthym fod angen i sero net fod yn fwy cydgysylltiedig ar draws y sector ac wedi'i sefydlu fwy ar draws y llywodraeth. Mae hynny'n awgrymu y dylid gosod sero net yn ganolog i ddyluniad rhaglenni sy'n hanfodol i fusnes fel bod pob penderfyniad mawr yn cyfuno cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd. Gallai hefyd olygu golwg ar draws y sector ar faterion fel trawsnewid fflydoedd a fyddai'n caniatáu ar gyfer safbwynt system gyfan, blaenoriaethu ac eglurder.

**3. Gosod map trywydd gyda chynlluniau ariannu a chyllido hirdymor.**
Ar draws y sector, dywedodd arweinwyr wrthym eu bod eisiau eglurder ynghylch cyllid ar gyfer sero net. Fel y dadleuodd rhai, dylai'r llywodraeth nodi cynllun aml-ddegawd gyda threfniadau ariannu a chyllido manwl a fyddai'n rhoi eglurder i'r sector cyhoeddus ac yn meithrin hyder buddsoddwyr preifat. Gellid adolygu cynllun hirdymor yn rheolaidd a'i addasu yn ôl yr angen.

**4. Ysgogi sero net drwy'r gadwyn gyflenwi.**
O ystyried bod swm sylweddol o allyriadau mewn cadwyni cyflenwi, bydd angen i'r sector cyhoeddus fuddsoddi mewn rheoli'r gadwyn gyflenwi, caffael, rheoli contractau a gweithgareddau masnachol eraill i ysgogi newid. Yn bwysig, gallai caffael sicrhau gwerth cymdeithasol ychwanegol drwy fanteisio i'r eithaf ar wariant cyhoeddus fel bod cyflenwyr yn chwarae rhan gliriach yn y siwrnai i sero net.

**5. Ce fnogi sgiliau gwyrdd drwy ymyrraeth yn y farchnad.**
Dywedodd arweinwyr addysg bellach wrthym fod angen i sgiliau gwyrdd gyrraedd 'trobwynt' o ran cyflenwad a galw. Gallai'r llywodraeth gyflymu hynny drwy gynyddu ei buddsoddiad yn y farchnad sgiliau, gan alluogi awdurdodau cyfunol a lleol i ddod â darparwyr addysg, busnesau a masnachau ynghyd i ddiffinio'r sgiliau sydd eu hangen ac ariannu gweithwyr proffesiynol trwy eu hyfforddiant.

# Barn y cyhoedd am y sector cyhoeddus



# Barn y cyhoedd am y sector cyhoeddus

Mae ein harolwg *Sefyllfa'r Wladwriaeth* blynyddol, a gyflwynir gan Ipsos UK, yn profi naws y cyhoedd am y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus.



Mae'r bennod hon o *Sefyllfa'r Wladwriaeth* yn nodi canfyddiadau ein harolwg diweddaraf yng Nghymru. Pethau allweddol i fyfyrio arnynt:


1. **Mae'r cyhoedd yng Nghymru wedi'i rannu ynghylch a ydynt am gael gwariant uwch neu drethi is**
2. **Beth bynnag maen nhw am ei weld yn digwydd, mae cyhoedd Cymru yn disgwyl i wariant y llywodraeth godi neu aros yr un fath yn y blynyddoedd i ddod**
3. **Mae pryderon y cyhoedd wedi cynyddu ynghylch tai, troseddu, mewnfudo a seilwaith yng Nghymru**
4. **Mae'r cyhoedd yn dod yn llai pesimistaidd – er nad yn hollol optimistaidd – am gostau byw**
5. **Mae hyder yn Llywodraeth Cymru wedi gostwng o ddigidau dwbl – ond mae'n parhau i fod yn gymharol gryf**
6. **Blaenoriaethau pobl ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yw y gallant gael gafael arnynt mewn da bryd a chwyno os aiff pethau o chwith**

# Mae'r cyhoedd yng Nghymru wedi'i rannu am y cydbwysedd cywir rhwng treth a gwariant

## Canfu ein harolwg fod y cyhoedd yng Nghymru wedi'i rannu yn ei agweddau at drethi a gwariant.

Fel y dengys yn y siart, mae tua un o bob tri yn dweud y dylai'r DU anelu at drethi is a gwariant cyhoeddus is, gyda bron yr un gyfran yn ffafrio trethi uwch i ariannu gwariant cyhoeddus uwch.

**C: Pa un o'r canlynol, os o gwbl, a ddylai fod yn bolisi gan Lywodraeth y DU yn eich barn chi ar gyfer y cydbwysedd rhwng gwariant cyhoeddus a lefelau trethiant a benthyca cyhoeddus yn y dyfodol?**





Sylfaen: 713 o oedolion 16-75 oed yng Nghymru (ar-lein)



Mae hyn yn cyd-fynd â barn gyffredinol y DU ac yn fwy arbennig â safbwyntiau yn Lloegr. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau ar draws y gwledydd datganoledig. Fel y dengys y rhaniad cenedlaethol, mae cyhoedd yr Alban yn fwy tebygol o ffafrio gwariant cyhoeddus uwch tra bo'r rhai yng Ngogledd Iwerddon yn pwyso mwy tuag at drethi is.

**C: Yn eich barn chi, pa un o'r canlynol, os o gwbl, a ddylai fod yn bolisi gan lywodraeth y DU ar y cydbwysedd rhwng gwariant cyhoeddus a lefelau trethiant a benthyca cyhoeddus yn y dyfodol?**




Sylfaen: 713 o oedolion 16-75 oed yng Nghymru (ar-lein)


# Mae'r cyhoedd yn disgwyl i wariant y llywodraeth aros ar y lefelau presennol neu fynd i fyny

Beth bynnag mae'r cyhoedd yng Nghymru ei *eisiau* i ddigwydd yn y blynyddoedd i ddod, i raddau helaeth mae'n *disgwyl* i wariant y llywodraeth aros ar ei lefelau presennol neu fynd i fyny.

Fel y dengys y siart isod, mae tua 56 y cant yn credu y disgwylir i wariant cyhoeddus aros ar yr un lefel neu fynd i fyny, gan mai dim ond 16 y cant sy'n credu bod treth a gwariant yn mynd i fynd i lawr.

Mae hyn yn weddol tebyg i gyfartaledd y DU, lle mae tua 59 y cant yn credu y disgwylir i wariant cyhoeddus aros ar yr un lefel neu fynd i fyny, gyda dim ond 17 y cant sy'n credu bod treth a gwariant yn mynd i ostwng.

**C: A pha rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi'n meddwl bydd yn bolisi gan Lywodraeth y DU ar y cydbwysedd rhwng gwariant cyhoeddus a threth a/neu fenthyca cyhoeddus yn y dyfodol?**




Sylfaen: 713 o oedolion 16-75 oed yng Nghymru (ar-lein)


# Mae pryderon wedi cynyddu ynghylch tai, troseddu a seilwaith

## Gofynnodd ein harolwg i'r cyhoedd enwi ei flaenoriaethau ar gyfer gwelliant dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, er gwaethaf gostyngiad o wyth pwynt canran yn y flwyddyn ddiwethaf, yr argyfwng costau byw yw prif bryder y cyhoedd yng Nghymru, a grybwyllwyd gan 77 y cant. Y mater mwyaf nesaf yw rhestrau aros y GIG, a grybwyllwyd gan dri chwarter y cyhoedd. Mae'r ddau fater argyfwng hyn yn amlwg yn dominyddu pryderon y cyhoedd.

Bu tri newid nodedig arall mewn blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yng Nghymru ers ein harolwg diwethaf ar ddiwedd 2022. Y peth mwyaf trawiadol yw bod pryderon ynghylch argaeledd tai fforddiadwy wedi codi 11 pwynt canran. Yn ogystal, mae pryderon am droseddu ac am seilwaith y wlad wedi cynyddu chwe phwynt canran yr un. Mae'n werth nodi hefyd fod gofal cymdeithasol yn un o'r pum blaenoriaeth uchaf yng Nghymru, fel y dengys y siart ar y dudalen nesaf.

**C: Pa rai o'r materion canlynol, os o gwbl, ydych chi'n meddwl dylai fod yn brif flaenoriaethau ar gyfer gwella yn y DU dros yr ychydig flynyddoedd nesaf?**





Sylfaen: 713 o oedolion 16-75 oed yng Nghymru (ar-lein)

## Mae'r ddwy brif flaenoriaeth ar gyfer gwelliant yn gyson ar draws pedair gwlad y DU, ond, o dan y rheini, mae rhai gwahaniaethau.

Yn fwyaf nodedig oll yw bod y cyhoedd yng Nghymru yn llai pryderus am droseddu a mewnfudo na'u cymdogion yn Lloegr, fel y dengys y siart.



**C: Pa rai o'r materion canlynol, os o gwbl, ydych chi'n meddwl ddylai fod yn brif flaenoriaethau ar gyfer gwella yn y DU dros yr ychydig flynyddoedd nesaf?**




Sylfaen: 5,815 o oedolion 16-75 oed yn y DU (ar-lein)

# Ynghanol pesimistiaeth helaeth, mae pryderon am gostau byw yn parhau i fod yn uchel ond yn cilio


## Gofynnodd ein arolwg *Sefyllfa'r Wladwriaeth* i'r cyhoedd beth yr oeddent yn disgwyl i wella, gwaethygu neu aros yr un fath yn y blynyddoedd i ddod.

Efallai yn anochel ar ôl blynyddoedd o amhariad, mae'r cyhoedd yng Nghymru yn fwy besimistaidd nag optimistaidd.

Mae tua 61 y cant o'n hymatebwyr yng Nghymru yn disgwyl i restrau aros y GIG waethygu yn y blynyddoedd i ddod ac mae 54 y cant yn disgwyl i argaeledd tai fforddiadwy waethygu. Mae hynny'n golygu bod y cyhoedd yn fwy pesimistaidd am rai o'r materion y maent am eu gweld yn cael eu gwella fwyaf.

Fodd bynnag, mae rhai arwyddion o optimistiaeth – neu o leiaf leihad mewn pesimistiaeth. Yn fwyaf trawiadol oll, mae canran y cyhoedd sy'n credu y bydd yr argyfwng costau byw yn gwaethygu wedi gostwng 24 pwynt canran i 55 y cant ers ein harolwg diwethaf ar ddiwedd 2022. Mae optimistiaeth gymharol ar gyfer masnach gyda gwledydd eraill yn nodedig hefyd, sy'n amlwg yng Nghymru a ledled y DU.

**C: Gan feddwl am yr ychydig flynyddoedd nesaf, a ydych chi'n meddwl y bydd pob un o'r canlynol yn gwella, yn gwaethygu neu'n aros tua'r un peth yn y DU?**




Sylfaen: 713 o oedolion 16-75 oed yng Nghymru (ar-lein)


# Mae hyder yn Llywodraeth Cymru wedi gostwng – ond mae'n parhau i fod yn gymharol gadarn

Mae ein harolwg *Sefyllfa'r Wladwriaeth* yn canfod bod hyder cyffredinol yn y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i ddirywio. Ar draws pob ffactor a bron pob rhan o'r sector cyhoeddus, mae hyder wedi gostwng ers ein harolwg diwethaf ar ddiwedd 2022. Mae'r siart ar y dde yn dangos canfyddiadau eleni ar draws chwech o'r meini prawf.

Fel y dengys y siart, yr Alban bellach yw'r weinyddiaeth llywodraeth ganolog y mae fwyaf o hyder ynddi yn y DU. Mae'n cymryd safle uchaf y llynedd oddi wrth Gymru gan fod y flwyddyn ddiwethaf wedi gweld hyder yn Llywodraeth Cymru yn gostwng fesul digidau dwbl: mae hyder ynddi 'i wneud y peth iawn ar gyfer cymdeithas' a 'defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf' wedi gostwng 14 pwynt canran yn y flwyddyn ddiwethaf, mae hyder ynddi i 'ddiwallu anghenion cwsmeriaid' a 'chyflawni'r canlyniadau rydych chi eu heisiau' wedi gostwng 13 pwynt canran, ac mae hyder ynddi i 'gyflawni prosiectau mawr ar amser ac o fewn y gyllideb' wedi gostwng 12 pwynt canran.

Yr unig fesur na ddisgynnodd fesul digidau dwbl oedd hyder ynddi i 'wneud penderfyniadau amgylcheddol gyfrifol', a ostyngodd naw pwynt canran.

**C: I ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n ymddiried yn y Llywodraeth i...?**




Sylfaen: 5,813 oedolion y DU ar-lein 16-75




Er bod hyn yn amlwg yn newyddion digroeso, mae'r mesurau hyn i gyd yn gymharol – mae Llywodraeth Cymru yn parhau â mwy o hyder ynddi na'r llywodraethau yn y DU a Gogledd Iwerddon ar bob mesur.

Mae'r siart nesaf hwn yn dangos lefelau hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n dangos mai'r GIG, o gryn dipyn, yw'r rhan â mwyaf o hyder ynddi o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac yna'r heddlu.

Er gwaethaf y dirywiad, mae hefyd yn dangos sut mae hyder i raddau helaeth y bydd llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf – a allai fod yn syndod i'r rhai yn y sector sy'n mynd i'r afael â hen systemau TG.

Mae hyder ar ei isaf o ran darparu prosiectau mawr ac, yn gyffredinol, mae pobl yn gweld darpariaeth fel gwendid cymharol yn y sector cyhoeddus, yng Nghymru a ledled y DU.

**C: I ba raddau, os o gwbl, yr ydych â hyder yn y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus i wneud y canlynol?**




Sylfaen: 713 o oedolion 16-75 oed yng Nghymru (ar-lein)

# Mae pobl eisiau gwasanaethau y gallant gael mynediad atynt a'u dal i gyfrif

## Archwiliodd ein harolwg brofiad y cyhoedd ei hun o wasanaethau cyhoeddus a gofynnwyd beth yr hoffai ei weld yn cael ei wella fwyaf. Mae'r siart yn rhestru ei ymatebion.

Wedi'i ysgogi'n debygol gan restrau aros y GIG, yr ateb pennaf o gryn dipyn oedd rhwyddineb a chyflymder mynediad. Yr ail ateb mwyaf poblogaidd oedd atebolrwydd, sy'n awgrymu bod y cyhoedd eisiau gwasanaethau sy'n delio'n effeithiol â chwynion. Y trydydd ymateb oedd bod pobl yn disgwyl i wasanaethau fod yr un fath ble bynnag y maent yn byw, ac yna cyfathrebu rhwydd. Y pumed ateb mwyaf poblogaidd oedd ansawdd y gwasanaethau.

Mae symlrwydd nodedig yn y blaenoriaethau hyn: mae'r cyhoedd eisiau gwasanaethau o ansawdd da y gallant gael mynediad atynt pan fo angen, cysylltu'n hawdd â nhw, a chwyno amdanynt pan aiff pethau o chwith.

Mewn cyferbyniad, mae blaenoriaethau ar raddfa is yn cynnwys cydweithio â'r sectorau preifat neu wirfoddol, rhannu data rhwng asiantaethau, dewis, a phersonoli. Mae hynny'n awgrymu mai diddordeb cyfyngedig sydd gan y cyhoedd yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu llunio a'u darparu – dim ond y canlyniadau.

**C: Gan feddwl am eich profiadau o wasanaethau cyhoeddus, pa rai o'r canlynol, os o gwbl, a ddylai fod yn brif flaenoriaethau ar gyfer gwella dros y flwyddyn neu ddwy nesaf yn eich barn chi?**




Sylfaen: 713 o oedolion 16-75 oed yng Nghymru (ar-lein)




## Mae'r defnydd o dechnoleg ddigidol yn rhyfeddol o isel i lawr blaenoriaethau'r cyhoedd.

Unwaith eto, mae hyn yn awgrymu diffyg diddordeb diniwed yn y ffordd y mae'r sector cyhoeddus yn gweithio yn hytrach na gwrthod technoleg. Wrth gwrs, byddai bod yn ddigidol yn rhan hanfodol o alluogi'r holl elfennau y mae'r cyhoedd yn eu blaenoriaethu.

Gofynnodd ein harolwg hefyd i'r cyhoedd enwi ei flaenoriaethau ar gyfer gwella cyfathrebu â gwasanaethau cyhoeddus. Fel y dengys y siart, mae 38 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru eisiau gallu cysylltu â gwasanaethau cyhoeddus ar wahanol adegau o'r dydd, gyda'r un ganran yn dweud nad ydynt am orfod ailadrodd eu manylion bob tro y maent yn defnyddio gwasanaeth. Yr ateb mwyaf poblogaidd nesaf, a grybwyllwyd gan dros draean o'r cyhoedd, yw gallu cysylltu â gwasanaethau all-lein. Mae hyblygrwydd o ran amseroedd apwyntiadau, siop un stop lle gallwch gysylltu â'r holl wasanaethau cyhoeddus, a nodiadau atgoffa terfynau amser i gyd yn is i lawr yn nhrefn blaenoriaethau.

Mae hyn i gyd yn awgrymu bod y cyhoedd eisiau lefel weddus o wasanaeth cwsmeriaid sylfaenol, ac mae'n ymddangos ei bod yn cael ei dderbyn efallai na fydd y sector cyhoeddus yn gallu cynnig llawer o hyblygrwydd. Fodd bynnag, dywedodd 35 y cant o'r cyhoedd fod angen gwella'r broses o gysylltu â gwasanaethau all-lein – dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. O ystyried bod llawer o'r sector yn annog newid i sianeli ar-lein, efallai y bydd angen rheoli disgwyliadau'r cyhoedd.

**C: Ac wrth feddwl pan fyddwch yn cysylltu â gwasanaethau cyhoeddus, pa rai o'r canlynol, os o gwbl, a ddylai fod yn brif flaenoriaethau ar gyfer gwella dros y flwyddyn neu ddwy nesaf yn eich barn chi?**




Sylfaen: 713 o oedolion 16-75 oed yng Nghymru (ar-lein)



# Cipolwg gan arweinwyr y sector cyhoeddus

# Cipolwg gan arweinwyr y sector cyhoeddus

Eleni, fe wnaethom gyfweld dros 100 o arweinwyr ledled y DU i hysbysu ein hymchwil ar gyfer *Sefyllfa'r Wladwriaeth*. Dywedasant wrthym fod argyfyngau olynol y blynyddoedd diwethaf wedi gadael eu gwasanaethau'n fregus, eu gweithluoedd yn flinedig, a'u broses o wneud penderfyniadau'n adweithiol.

Yn erbyn y cefndir anodd hwnnw, roeddent i gyd yn hynod falch o'r hyn y mae eu pobl yn parhau i ddarparu. Fodd bynnag, roedd pob arweinydd a gyfwelwyd gennym – yn ddieithriad – yn glir bod angen i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus newid. Dywedasant wrthym fod dyheadau'r sector yn rhy aml y tu hwnt i realiti ei adnoddau, ac mae angen diwygio a fydd yn caniatáu i'r sector flaenoriaethu, gweithio tuag at weledigaeth gyfunol, a gwella ei allu i ddarparu.

Mae'r adran hon o *Sefyllfa'r Wladwriaeth* yn nodi ein harsylwadau o'r cyfweliadau ymchwil yng Nghymru.

Pethau allweddol i fyfyrio arnynt:

1. **Er bod ein harolwg wedi canfod bod y cyhoedd yng Nghymru yn disgwyl i wariant y llywodraeth aros ar ei lefelau presennol neu fynd i fyny, mae arweinwyr sector cyhoeddus Cymru yn disgwyl toriadau gwariant yn agos ar y gorwel**
2. **Mae cyflwr cyllid cyhoeddus yn golygu bod angen i'r llywodraeth yng Nghymru – a ledled y DU – gyfateb ei dyheadau i'w hadnoddau**
3. **Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod mewn cyflwr critigol yng Nghymru**
4. **Mae trawsnewid digidol yn parhau i aeddfedu ar draws y sector cyhoeddus ac mae cynnydd yn dibynnu ar well ansawdd data a phensaernïaeth**
5. **Mae gan Gymru optimistiaeth a chyfle – os gall feddwl dros y tymor hir, cydweithio, a chysylltu llywodraeth â busnes**





## Mae arweinwyr sector cyhoeddus yn disgwyl toriadau gwariant yn agos ar y gorwel

Er bod ein harolwg wedi canfod bod mwyafrif y cyhoedd yng Nghymru yn disgwyl i wariant y llywodraeth aros ar ei lefelau presennol neu gynyddu, dywedodd swyddogion o bob rhan o'r sector wrthym eu bod yn disgwyl iddo ostwng yn y tymor byr i'r tymor canolig.

Dywedodd arweinwyr ar draws y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus wrthym fod effaith gronnus galw uwch am wasanaethau, symudiadau demograffig, pandemig COVID-19, prinder gweithlu, argyfwng costau byw ac anghydfodau cyflog wedi gadael eu sefydliadau dan straen ariannol aruthrol – a chytunasant y bydd cyflwr cyllid cyhoeddus Cymru yn gwneud dewisiadau anodd yn anochel yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

> Gwnewch y symiau ar ein hamgylchedd ariannol. Arweiniodd Adolygiad Gwariant 2021 at ein Rhaglen Lywodraethu, ond dwy flynedd yn ddiweddarach mae chwyddiant yn golygu bod ein harian yn werth llawer yn llai. Yna mae effaith gronnus galw cynyddol, pwysau demograffig fel y boblogaeth sy'n heneiddio, ac effaith y pandemig.
>
> **Uwch-was sifil**

> Mae'r cyd-destun ariannol yn enbyd. Mae'n waeth nag yr oedd ar frig cyni. Cafodd arian ei dywallt arnom yn ystod COVID-19 a nawr mae'r tap yn cael ei gau. Mae'r dewisiadau yn mynd i fod yn anodd iawn.
>
> **Arweinydd y GIG**

> Mae mwy o doriadau i ddod, sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn i'r sefydliad gan fod angen i ni barhau i ailgynllunio pethau.
>
> **Cyfarwyddwr asiantaeth y llywodraeth**

## Mae angen i'r llywodraeth baru ei dyheadau â'i hadnoddau – neu ddiwygio

Y consensws llethol ymhlith y rhai a gafodd eu cyfweld oedd bod y degawdau diwethaf wedi gweld dyheadau llywodraeth – yng Nghymru, ar draws y DU a ledled y byd – yn cynyddu fwy na'r adnoddau sydd ar gael iddi.

Roeddent yn dadlau na all y wladwriaeth barhau i orymestyn ei chyllidebau ac, yn y pen draw, mae angen i'r llywodraeth ddechrau blaenoriaethu a gwneud dewisiadau bwriadol ynghylch beth i'w wneud a beth i beidio â'i wneud.

Yr unig ddewisiadau eraill yw diwygiadau sy'n gwneud gwahaniaethau sylweddol i lefelau cynhyrchiant neu sy'n troi'r llywodraeth yn drefnwr, gan ddarparu mwy drwy'r sectorau preifat a gwirfoddol.

> Y broblem yw uchelgais Llywodraeth Cymru yn erbyn yr hyn y gellir ei ddarparu. Mae'n debyg nad oedd yr uchelgais byth yn gyflawnadwy, ond nawr mae'n golygu dewisiadau anodd.
>
> **Uwch-was sifil**

> Mae pobl yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn barod am foderneiddio, ond yn cael trafferth gyda sut y gallai hynny edrych, ac mae hynny'n ein rhwystro.
>
> **Arweinydd y GIG**

> Mae pawb yn byw yn dynn, mae arian yn brin, a dyw hynny ddim yn mynd i newid hyd y gellir ei ragweld. Mae angen i ni newid ac yn gyflym.
>
> **Cyfarwyddwr gweithredol asiantaeth y llywodraeth**





# Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod mewn cyflwr difrifol

Mae mwy na degawd o aflonyddwch wedi gadael llawer o wasanaethau cyhoeddus mewn graddau amrywiol o drallod ariannol ac yn llafurio i gyflawni busnes fel arfer. Mae hynny'n cynnwys y GIG, a dywedodd arweinwyr lluosog wrthym fod y gwasanaeth iechyd yn y cyflwr gwaethaf y maent wedi'i weld erioed.

Roedd arweinwyr gofal cymdeithasol yn glir eu bod hwythau mewn argyfwng hefyd ond eu bod yn denu llai o sylw na'r GIG. Rhybuddiodd un cyfwelai y bydd ansawdd gofal yn dirywio os na chaiff y sector ei ariannu'n well neu os na fydd y galw'n gostwng.

> Mae gennym yr un ôl-groniadau ac oedi mewn gofal cymdeithasol ag sydd yn y GIG ond nid yw mor weladwy. Yn y GIG, mae pobl mewn ysbytai neu mewn ambiwlans. Mewn gofal cymdeithasol, maent yn eu cartrefi eu hunain yn aros am asesiad neu gymorth.
>
> **Arweinydd gofal cymdeithasol**

> Nid wyf erioed wedi gweld y GIG mewn cyflwr mor wael ac rwyf wedi gweithio ynddo ers degawdau. Ac nid oes dim o hyn yn sydyn.
>
> **Cyfarwyddwr anweithredol y GIG**

> Mae yna awydd i greu gwasanaeth gofal cenedlaethol ond ni allaf weld hynny'n digwydd unrhyw bryd yn fuan o ystyried y sefyllfa ariannol.
>
> **Arweinydd iechyd a gofal cymdeithasol**

# Mae trawsnewid digidol yn parhau i aeddfedu ar draws y sector cyhoeddus

Dros y degawd diwethaf, bu cynnydd sylweddol o ran mabwysiadu technoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus. Mae *Sefyllfa'r Wladwriaeth* wedi gwneud sylwadau ar berthynas esblygol y sector â'r digidol drwyddi draw, ac mae ein hadroddiad diweddaraf yn canfod bod y berthynas hon yn parhau i aeddfedu i fod yn rhan o feddylfryd prif ffrwd y llywodraeth.

Er gwaethaf y cynnydd a wnaed yn y defnydd o dechnoleg ddigidol gan y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus, cydnabu ein cyfweleion nad yw ei photensial wedi'i wireddu'n llawn eto. Nododd llawer heriau ynghylch materion TG etifeddol, yr angen am y gallu i ryngweithredu rhwng systemau'r sector cyhoeddus, gwendid mewn pensaernïaeth data, buddsoddiad parhaus, a pha mor anodd oedd sicrhau gweithlu medrus.

> Yr her allweddol ar gyfer y maes digidol yw arweinyddiaeth y sector cyhoeddus. Mae gormod yn meddwl bod mynd yn ddigidol yn ddewis, ond beth ar y ddaear ydych chi'n mynd i'w wneud os nad ydych chi'n gwneud pethau'n ddigidol?
>
> **Arweinydd y GIG**

Rhannodd arweinwyr y sector cyhoeddus sydd â nodau digidol uchelgeisiol eu gweledigaeth ar gyfer dyfodol llywodraeth. Maent yn gweld sector cyhoeddus gyda data cydgysylltiedig, systemau rhyngweithredol, y gallu i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, a ffocws ar achub y blaen ar anghenion dinasyddion gydag ychydig iawn o fewnbwn. Fodd bynnag, maent yn cydnabod bod cyflawni hyn yn gofyn am arweinyddiaeth gref, buddsoddiad, a sgiliau i lywio'r rhaglenni gwaith hyn.

> Pan ddaw i'r maes digidol, mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru ymhell ar ei hôl hi. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn greulon a dweud 'rydym yn ei wneud fel hyn'.
>
> **Arweinydd busnes**

Bydd hefyd yn dibynnu ar well ansawdd data a phensaernïaeth. Dywedodd arweinwyr â gweledigaeth dda ar gyfer y maes digidol wrthym fod Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi darparu rhai profiadau defnyddwyr digidol o'r radd flaenaf. Ond, i symud ymlaen, mae angen i'r sector cyhoeddus gael gwell siâp ar ei ddata a'i gysylltu'n well.

> Rwy'n meddwl ei fod yn ddiffygiol. Mae Llywodraeth Cymru yn iawn ond mae rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar ei hôl hi.
>
> **Uwch-was sifil**



# Mae gan Gymru optimistiaeth a chyfle – os gall feddwl ar gyfer y tymor hir, cydweithio, a chysylltu llywodraeth â busnes

Creodd ein cyfweliadau ddarlun pryderus o gyflwr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a rhagolwg anodd a fydd yn gofyn am ddewisiadau anodd. Ond yn erbyn y cefndir hwnnw, clywsom optimistiaeth wirioneddol am ddyfodol Cymru.

> Mae cynllunio hirdymor yn gyfle i Gymru. Rydyn ni wedi cael yr un llywodraeth ers 25 mlynedd ac mae'n annhebygol iawn y bydd hynny'n newid. Mae'n debyg mai ni yw'r unig wlad a allai wneud cynllunio hirdymor ond nid ydym yn gwneud hynny.
>
> **Uwch-was sifil**

> Mae Llywodraeth Cymru yn weddol ifanc ac rydym ar gromlin ddysgu fawr. Rydyn ni'n dod yn nes at ble mae angen i ni fod, rydyn ni'n gwella.
>
> **Uwch-was sifil**

Dywedodd arweinwyr ar draws y llywodraeth a'r gwasanaethau cyhoeddus wrthym fod gan Gymru gryfderau enfawr i fanteisio arnynt – ac nid y lleiaf ohonynt yw ei maint – ond fe wnaethon nhw dynnu sylw at dri amod ar gyfer llwyddiant. Yn gyntaf, dywedodd sawl un y bydd cydweithio ystyrlon o fewn y sector cyhoeddus yn hanfodol i wneud y gorau o arian trethdalwyr ac ysgogi diwygio. Yn ail, dadleuodd y rhan fwyaf fod angen i Lywodraeth Cymru feddwl yn y tymor hwy: ar ôl blynyddoedd o argyfyngau olynol, mae'r sector cyhoeddus wedi'i orfodi i feddwl yn y tymor byr am gyfnod rhy hir. Mae Cymru eisoes ar y blaen drwy ei Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus edrych ar bolisi yn y tymor hwy. Dadleuodd ein cyfweleion fod angen i'r llywodraeth ddod allan o'r modd argyfwng a meddwl yn strategol. Yn drydydd, dywedodd cyfweleion wrthym nad yw'r sector cyhoeddus yn deall nac yn cysylltu'n ddigonol â busnes – a gallai hynny fod yn ddatblygiad sy'n newid byd Cymru.

> Rydym yn wlad fach felly ni ddylai ein sector cyhoeddus fod mor dameidiog. Dylem fod yn gydgysylltiedig ond rydym filiwn o filltiroedd ymhell o hynny.
>
> **Uwch-was sifil**

> Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnes oherwydd nid yw'n gwybod sut – ac nid y gwleidyddion yn unig yw hynny, ond yr haenau o slafwaith o'u cwmpas.
>
> **Arweinydd busnes**

> Mae angen inni gydgysylltu llawer yn well ar draws y sector cyhoeddus. Mae angen i ni ymlynu wrth yr achos. Gwelsom hyn yn digwydd yn ystod COVID-19 – chibod, rhannu adnoddau, rhannu pobl, rhannu adeiladau ac ati.
>
> **Cyfarwyddwr asiantaeth y llywodraeth**

# Y trywydd tuag at sero net



# Y trywydd tuag at sero net

## Ym mis Mehefin 2019, y DU oedd yr economi fawr gyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer sero net.

Drwy ei Deddf Newid yn yr Hinsawdd, ymrwymodd Llywodraeth y DU i leihau nwyon tŷ gwydr 100 y cant o'u lefelau yn 1990 erbyn 2050.

Yn 2021, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru darged sero net ar gyfer 2050, a gosododd hefyd dargedau interim ar gyfer 2030 a 2040. Mae ras y DU tuag at allyriadau sero net ar y gweill.

Mae *Sefyllfa'r Wladwriaeth* eleni yn edrych yn arbennig ar y ffordd i sero net trwy archwilio agweddau cyhoeddus a myfyrdodau gan arweinwyr y sector cyhoeddus. Drwy archwilio sero net o safbwynt y dinesydd a'r wladwriaeth, mae'r ymchwil hon yn ategu adroddiadau eraill Deloitte, gan gynnwys ein gwaith ar beth mae cynaliadwyedd yn ei olygu i ddefnyddwyr.

> Wn i ddim a ydym ar y llithriad araf tuag at ddiwedd gwareiddgarwch neu'n agos iawn at ail-gydbwyso a byw'n synhwyrol o fewn ein hadnoddau naturiol.
>
> **Cyfarwyddwr asiantaeth y llywodraeth**

**Pethau allweddol i fyfyrio arnynt**

- Ychydig o hyder sydd gan y cyhoedd yng Nghymru mewn targedau hinsawdd gan fod tri chwarter yn dweud ein bod yn annhebygol o gyflawni economi sero net erbyn 2050
- Mae pobl yn gweld allyriadau fel mater i'r llywodraeth, cwmnïau ynni a busnes – ac nid ydynt yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i'w ffordd o fyw yn yr ychydig flynyddoedd nesaf
- Mae'r llywodraeth yn teimlo'r ergydion cyntaf ar y ffordd i sero net wrth i'n cyfweliadau ddatgelu safbwyntiau amrywiol ar y rhagolygon ar gyfer cyflawni sero net
- Mae arweinwyr y sector cyhoeddus yn glir y bydd caffael a rheoli'r gadwyn gyflenwi yn allweddol i sicrhau sector cyhoeddus sero net
- Mae achub y blaned yn fwy na sero net – dylai llunwyr polisi fabwysiadu safbwynt ehangach i ystyried diogelu'r amgylchedd yn ehangach
- Mae angen i'r cyhoedd fod yn fwy gwybodus, yn fwy ymgysylltiedig ac yn fwy gweithredol er mwyn cyrraedd ein nodau hinsawdd

# Rhan un: beth yw'r deinamig sero net rhwng y dinesydd a'r wladwriaeth?


## Mae rhan gyntaf ein hasesiad o'r ffordd i sero net yn archwilio barn y dinesydd.

Mae'n seiliedig ar arolwg unigryw gan Ipsos UK. Gweler tudalen un am ragor o wybodaeth am ein methodoleg.

## Dim llawer o hyder cyhoeddus yn nhargedau sero net y DU.

Archwiliodd ein harolwg y lefelau o hyder a oedd gan y cyhoedd y bydd y DU yn cyrraedd ei tharged o economi sero net erbyn 2050. Fel y dengys y siart hwn, mae bron i dri chwarter y cyhoedd yng Nghymru ddim yn hyderus yn y garreg filltir hon.

**C: Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi y bydd Llywodraeth y DU yn cyrraedd ei tharged ar gyfer cyflawni allyriadau sero net ar draws yr economi erbyn 2050?**





Sylfaen: 5,815 o oedolion 16-75 oed yn y DU (ar-lein)

## Gwnaethom hefyd ofyn i bobl yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru am eu hyder yn eu llywodraethau priodol.

Unwaith eto, yn gyffredinol, mae hyder yn brin – ond mae pobl yng Nghymru yn fwy hyderus y gall eu llywodraeth ddatganoledig gyrraedd targed 2050 na gall Llywodraeth y DU.



**C: Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi y bydd Llywodraeth yr Alban/y Senedd/Cynulliad Gogledd Iwerddon yn cyrraedd ei darged ar gyfer sicrhau allyriadau sero net ar draws economi'r Alban/Cymru/Gogledd Iwerddon erbyn 2045/2050?**





Sylfaen: 5,815 o oedolion 16-75 oed yn y DU (ar-lein)

## Mae'r cyhoedd yn gweld allyriadau fel mater i'r llywodraeth, cwmnïau ynni a busnes.

Gofynnodd ein harolwg i'r cyhoedd yng Nghymru pa gamau y gallai'r llywodraeth eu cymryd i gael yr effaith fwyaf ar allyriadau. Fel y dengys y siart, yr ymateb mwyaf poblogaidd o gryn dipyn yw newid defnydd ynni o danwydd ffosil, yr ail yw rheoleiddio busnes, a'r trydydd yw annog trafnidiaeth sy'n wyrddach.

Mae'n nodedig bod camau gweithredu sy'n ymwneud â newid ymddygiad unigol yn llawer is ar restr y cyhoedd – er bod 46 y cant yn dweud bod angen i gymysgedd ynni'r wlad newid, dim ond 14 y cant sy'n meddwl y bydd annog pobl i newid eu harferion siopa yn gwneud gwahaniaeth.

**C: Pa un o'r camau gweithredu canlynol gan y llywodraeth, os o gwbl, a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar leihau allyriadau'r wlad yn eich barn chi?**




Sylfaen: 713 o oedolion 16-75 oed yng Nghymru (ar-lein)


## Yn ôl y cyhoedd, mae cynaliadwyedd yn ymwneud ag ailgylchu yn fwy nag unrhyw beth arall.

Gofynnodd ein harolwg i'r cyhoedd pa gamau y gallant eu cymryd tuag at ffordd fwy cynaliadwy o fyw. Yr ateb mwyaf poblogaidd yw ailgylchu mwy o wastraff cartref, a grybwyllwyd gan draean o'r cyhoedd yng Nghymru. Mae newidiadau mwy arwyddocaol o ran ffordd o fyw fel hedfan llai neu brynu car trydan yn is i lawr rhestr y cyhoedd, fel y dengys y siart.

Ac roedd hyd yn oed newidiadau cymharol ymylol fel pobl yn addysgu eu hunain am yr hyn y gallant ei wneud neu gadw at gynnyrch tymhorol ond yn cael eu gweld yn werth eu gwneud gan lai na chwarter y cyhoedd yng Nghymru. Mewn geiriau eraill, nid yw pobl yn gweld eu dewisiadau ffordd o fyw yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i fyw'n fwy cynaliadwy.



**C: Pa ddau neu dri o'r camau hyn y gallai aelwydydd ledled y DU eu cymryd, os o gwbl, a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf yn eich barn chi o ran sicrhau bod gan bobl yn y DU ffordd fwy cynaliadwy o fyw?**





Sylfaen: 713 o oedolion 16-75 oed yng Nghymru (ar-lein)

## Yna gofynnwyd i'r cyhoedd pa newidiadau ffordd o fyw y maent yn bwriadu eu gwneud yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Eto, o bell ffordd, ailgylchu oedd yr ateb mwyaf poblogaidd, gyda thua hanner y cyhoedd yng Nghymru yn disgwyl gwneud mwy yn y blynyddoedd i ddod. Fel y dengys y siart, yr ymateb mwyaf poblogaidd nesaf oedd ailddefnyddio neu atgyweirio eitemau.

Eto, ychydig o bobl sy'n disgwyl gwneud newidiadau mwy i'w bywydau: dim ond 19 y cant sy'n disgwyl newid gwresogi eu cartref ac mae 11 y cant yn disgwyl prynu car trydan. Mewn geiriau eraill, ychydig o bobl sy'n disgwyl gallu gwneud dewisiadau ffordd o fyw sylweddol neu gostus yn yr ychydig flynyddoedd nesaf er budd cynaliadwyedd.

**C: A pha rai o'r gweithredoedd hyn, os o gwbl, ydych chi'n meddwl eich bod chi'n bersonol yn debygol iawn o'u gwneud dros yr ychydig flynyddoedd nesaf? Dewiswch y rhai yr ydych yn hyderus y byddwch yn debygol o'u gwneud yn unig.**




Sylfaen: 713 o oedolion 16-75 oed yng Nghymru (ar-lein)

# Rhan dau: beth mae arweinwyr y sector cyhoeddus yn ei ddweud am sero net?

## Mae ail ran ein hasesiad o'r ffordd i sero net yn archwilio barn arweinwyr y sector cyhoeddus.

Mae'n seiliedig ar gyfweliadau gyda mwy na 100 o uwch-swyddogion ar draws y DU, gan gynnwys uwch-weision sifil, prif weithredwyr cynghorau, cynrychiolwyr etholedig ac arweinwyr y GIG. Eu barn bersonol yw'r hyn a geir yma ac nid ydynt yn cynrychioli barn Deloitte, Reform nac unrhyw sefydliad arall – gweler tudalen un am ragor o wybodaeth am ein methodoleg.



## Mae'r llywodraeth yn teimlo'r ergydion cyntaf ar y ffordd i sero net

Yn ein cyfweliadau, roedd arweinwyr y sector cyhoeddus yn gyflym i nodi mai megis dechrau y mae'r daith i sero net. Dywedodd rhai ein bod ar waelod y mynydd, ac eraill ein bod ni wrthi'n casglu'r ffrwythau crog isel, ond roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y gwaith caled eto i ddod.

Ar y cyfan, roeddent yn glir bod y dadleuon presennol ynghylch cynnydd yn cynrychioli'r ergydion cyntaf ar ffordd bell o'n blaenau.

> Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd, a oedd yn newyddion gwych. Ond ers hynny, dim ond gwasanaeth gwefus fu hyn.
>
> **Cynrychiolydd etholedig**

Roedd y cyfweleion wedi'u rhannu ynghylch a yw'r sector cyhoeddus yng Nghymru – yn y cyfnod cynnar hwn – ar fin cyrraedd targedau sero net ai peidio.

> Rydym yn hyderus ein bod yn mynd i wneud cynnydd gwirioneddol fawr. Dydw i ddim yn meddwl ein bod ni wrthi'n casglu'r ffrwythau crog isel bellach – rydyn ni ar lethrau hawdd y mynyddoedd – ond wrth i chi fynd ymlaen, bydd yn mynd yn anoddach ac yn anoddach.
>
> **Uwch-was sifil**



Dadleuodd rhai y bydd cyllid cyhoeddus tynn a phwysau uniongyrchol yn gwneud cynnydd yn anodd ac ychwanegodd eraill nad oes cynlluniau cyflawni ar waith. Fodd bynnag, roedd eraill yn glir bod y sector cyhoeddus eisoes yn delio â newid yn yr hinsawdd drwy ymatebion i ddigwyddiadau tywydd eithafol.

> Rwy'n meddwl bod bwriad Llywodraeth Cymru yn dda ond nid oes ganddyn nhw'r adnoddau ac mae ganddyn nhw bwysau eraill hefyd fel y GIG.
>
> **Cyfarwyddwr asiantaeth y llywodraeth**

> Mae gennym darged sero net ar gyfer 2030. Ffantastig. Ond dangoswch y cynllun darparu i mi.
>
> **Uwch-was sifil**

> Mae awdurdodau lleol eisoes yn gorfod delio ag uniongyrchedd ymateb i newid yn yr hinsawdd drwy bethau fel llifogydd.
>
> **Arweinydd llywodraeth leol**

## Mae caffael a rheoli'r gadwyn gyflenwi yn allweddol i wneud y sector cyhoeddus yn fwy gwyrdd

Mae arweinwyr y sector cyhoeddus yn effro i lefel yr allyriadau a gynhyrchir gan eu cyflenwyr a'r cadwyni cyflenwi y tu hwnt iddynt. Maent yn gwybod y bydd eu caffael yn arf cynyddol bwysig wrth yrru sero net yn y blynyddoedd i ddod.

> Y peth mawr i ni yw contractau mawr a'r gadwyn gyflenwi oherwydd dyna lle mae ein hallyriadau yn digwydd. Y cwestiwn yw sut yr ydym yn mesur yr allyriadau hynny gydag unrhyw sicrwydd, ond mae'n ysgogiad da, ac mae'n rhaid bod hynny yn ddechrau da.
>
> **Uwch-was sifil**

Dywedodd llawer o'r cyfweleion wrthym fod eu contractau eisoes yn gofyn am gymwysterau sero net gan gyflenwyr, ond y gallai'r llywodraeth ofyn am fwy wrth i'r Ddeddf Caffael newydd ddod i rym yng Nghymru ac yn Lloegr.

Cydnabu un ffigwr uwch yng Nghymru gymhlethdodau yn deillio o darged interim Llywodraeth Cymru o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 tra bo cyflenwyr dros y ffin yn Lloegr yn gweithio tuag at garreg filltir 2050.

> Mae 80 y cant o'n hallyriadau yn y gadwyn gyflenwi ac mae llawer o'n cadwyn gyflenwi yn y DU. Felly, efallai ein bod ni yn gweithio i darged 2030 yng Nghymru ond bydd ein cyflenwyr yn edrych ar 2050.
>
> **Uwch-was sifil**

> Gall cyflenwyr adrodd stori dda wrthym am sero net ond beth wedyn? Nid ydym yn ddigon tactegol. Mae angen inni fynd yn ôl atyn nhw a dweud 'mae'n rhaid i chi gyflymu hyn'.
>
> **Uwch-was sifil**





## Mae achub y blaned yn fwy na sero net

Mae trosglwyddiad y DU i sero net yn canolbwyntio ar un elfen hollbwysig o'r newid yn yr hinsawdd: lleihau allyriadau carbon. Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o'r arweinwyr a gyfwelwyd gennym yn awyddus i lunwyr polisi, busnesau a'r cyhoedd weld cynaliadwyedd a'r amgylchedd o safbwynt ehangach.

Roeddent yn dadlau, wrth wthio ymlaen ar y ffordd i sero net, fod angen i lywodraeth wneud mwy i warchod yr amgylchedd ac annog economi fwy cylchol – ac ychwanegodd llawer fod angen i'r llywodraeth symud ar frys.

> Mae pobl hŷn yn poeni am y newid yn yr hinsawdd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn llwyr ymroi i gynaliadwyedd oherwydd na chawsant eu magu mewn cymdeithas wastraffus. Cawsant eu magu i atgyweirio, ailddefnyddio, addasu a thrwsio.
>
> **Cyfarwyddwr asiantaeth**

> Mae angen inni gynyddu cylchogrwydd. Y dillad rydych chi'n eu trosglwyddo o un plentyn i'r llall a'r grŵp WhatsApp lleol lle rydych chi'n masnachu dodrefn – mae hyn i gyd yn gylchogrwydd. Yr hyn y mae angen inni ei wneud yw ehangu'r dolenni hynny.
>
> **Cynrychiolydd etholedig**

> Dim ond un rhan o ddarlun mwy yw sero net – mae'n ymwneud â chadwraeth, gwarchod rhywogaethau, ac mae angen i'r cyfan gyd-fynd.
>
> **Cynrychiolydd etholedig**

# Mae angen i'r cyhoedd ymgysylltu a bod yn weithredol er mwyn cyrraedd ein nodau hinsawdd


Mae ein harolwg yn tynnu sylw at ddau gasgliad am ysbryd y cyhoedd ar sero net: mae'n flaenoriaeth, ond nid yn rhywbeth a fydd yn newid eu bywydau yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o dystiolaeth yn awgrymu y bydd angen i'r cyhoedd newid eu ffordd o fyw yn sylweddol yn y degawdau nesaf os yw Cymru a gweddill y DU am gyrraedd eu targedau sero net.

Mae arweinwyr y sector cyhoeddus yn effro i'r anghysondeb hwn, a dywedodd llawer wrthym fod angen i lywodraethau ymgysylltu'n well â'u dinasyddion. Maen nhw'n dadlau bod angen i bobl ddeall beth sydd yn y fantol a'r rôl sydd angen iddynt ei chwarae i gyrraedd sero net. Awgrymodd rhai fod angen canolbwyntio ar y manteision cadarnhaol, gan gynnwys twf economaidd, yn hytrach na chreu ymdeimlad o faich ac anghyfleustra.

> Mae angen ymgyrch gyfathrebu genedlaethol i ledaenu negeseuon syml am yr hyn y gall pobl ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn inni gyrraedd sero net. Mae'n rhaid iddi ganolbwyntio ar yr hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw, felly mae'n groes i fod yn 'Nimby' a byddwn ni'n cyrraedd màs critigol yn eu ffordd o feddwl.
>
> **Uwch-was sifil**

> Mae'n argyfwng amgylcheddol ac mae angen i bawb atgynnull fel y gwnaethon nhw gyda COVID-19. Gallwn wneud hyn ond mae angen i ni fagu'r teimlad cryf hwnnw. Mae yna drychineb byd-eang yn digwydd o'n blaenau.
>
> **Cyfarwyddwr asiantaeth y llywodraeth**

> Mae yna lawer o ymladd yn ôl gan y cyhoedd o ran sero net nawr, felly sut ydych chi'n dod â'r cyhoedd ar hyd y daith gyda chi?
>
> **Prif weithredwr cyngor**



# Casgliad: gwersi i sector cyhoeddus Cymru o'r tu mewn



# Casgliad: gwersi i sector cyhoeddus Cymru o'r tu mewn

Dros y degawd diwethaf, mae llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a ledled y DU wedi wynebu amhariadau olynol: cyni yn sgil yr argyfwng ariannol byd-eang, gweithrediad cymhleth Brexit, y frwydr ddigynsail yn erbyn COVID-19, a her amlwg yr argyfwng costau byw.

Mae'r argraffiad hwn o *Sefyllfa'r Wladwriaeth* yn canfod bod sector cyhoeddus Cymru yn mynd i'r afael ag effaith gronnus argyfyngau olynol yn ogystal â'r gostyngiadau mewn pŵer gwario, y cynnydd mewn galw, a'r heriau gweithlu a ddaeth yn eu sgil.



## Gwersi i sector cyhoeddus Cymru o'r tu mewn

Yn ein adroddiad *Sefyllfa'r Wladwriaeth* ar gyfer y DU gyfan, fe wnaethom nodi deg gwers ar gyfer y sector cyhoeddus, gan ddefnyddio'r cipolwg o'n cyfweliadau â dros 100 o arweinwyr y sector cyhoeddus. Mae'r gwersi hyn yn berthnasol nid yn unig i Lywodraeth y DU ond hefyd i'r llywodraethau datganoledig a'r sector cyhoeddus ehangach. Gellir dod o hyd i adolygiad y DU yma a gellir ei ddarllen ochr yn ochr â'r adroddiad hwn i Gymru i gael persbectif ehangach.

Gyda'i gilydd, mae'r cyfweliadau'n tynnu sylw at y pum argymhelliad canlynol:

1. **Diddymu rhwystrau sefydliadol ar gynhyrchiant.** Dylai rhoi hwb i gynhyrchiant o fewn y sector cyhoeddus ddechrau gyda mynd i'r afael â ffyrdd o weithio sy'n gynhenid yn y sector ac sy'n ei rwystro. Mae hynny'n golygu mwy o flaenoriaethu, trefniadau ariannu mwy hirdymor, a chynlluniau gwariant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Gall arweinwyr hefyd ddylanwadu ar enillion cynhyrchiant trwy'r naws a'r disgwyliadau y maent yn eu gosod.

2. **Ailosod y system i ddod â'r modd argyfwng i ben.** Mae llawer o'r sector cyhoeddus wedi treulio blynyddoedd yn darparu ymatebion tactegol i amhariadau olynol gan rymoedd allanol. O'r herwydd, mae angen 'ailosod' ar y sector cyhoeddus i'w helpu i symud tuag at feddwl yn y tymor hwy a chyflwyno cynllun cydgysylltiedig, sector cyfan ar gyfer y dyfodol.

3. **Gwneud cyflawni yn seren arweiniol ar gyfer diwygio.** Mae swyddogion yn credu bod amgylchedd atebolrwydd, craffu a risg y sector yn ei gwneud yn fwy anodd nag y dylai fod i gyflawni pethau – boed yn brosiectau mawr neu'n cyflawni busnes fel arfer. Dylai diwygiadau'r llywodraeth yn y dyfodol felly bwysleisio cyflawni fel rhywbeth sy'n ganolog i ddiben y llywodraeth.

4. **Peidio â rhoi'r gorau i drawsnewid digidol.** Dywedodd arweinwyr y sector cyhoeddus wrthym fod angen iddynt ddatrys y problemau newydd ym maes trawsnewid digidol a ddaw yn sgil aeddfedrwydd digidol sector cyhoeddus y DU. Maent yn cynnwys cysoni ansawdd data a'i saernïaeth ag ansawdd profiad y defnyddiwr a pharhau i ddatrys problemau etifeddol.

5. **Manteisio ar botensial caffael.** Dywedodd llawer o arweinwyr y sector cyhoeddus wrthym fod Deddf Caffael 2023 yng Nghymru a Lloegr wedi agor potensial newydd i gaffael roi hwb i werth arian trethdalwyr a gwella gweithio mewn partneriaeth â chyflenwyr mawr a bach. Dywedasant wrthym hefyd eu bod am barhau â'r ymdrech i greu gwerth cymdeithasol drwy gontractau. Er mwyn gwireddu'r potensial hwnnw, bydd angen ffyrdd newydd beiddgar o weithio, ymagwedd aeddfed at risg, ac uchelgais gwirioneddol yn swyddogaethau caffael a masnachol y sector – yn ogystal â'r arweinyddiaeth i wneud iddo ddigwydd.

**Mae *Sefyllfa'r Wladwriaeth* 2024 yn dod i'r casgliad bod arweinwyr y sector cyhoeddus am i'r llywodraeth 'ailosod' y system a rhoi blynyddoedd o argyfyngau ac ymatebion tactegol y tu ôl iddynt. Yn y pen draw, mae swyddogion ar draws y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus am i'r sector addasu i'w heriau trwy flaenoriaethu'n fwy bwriadol, wrth ganolbwyntio mwy ar y tymor hwy a'r hyn a gyflawnir.**

**Byddai ailosodiad 'CTRL+ALT+DEL' yn galluogi'r sector i feddwl yn nhermau:**

- **CTRL** gwell **rheolaeth** ar ganlyniadau drwy bwysleisio pwysigrwydd cyflawni.
- **ALT** rhoi hwb i gynhyrchiant drwy archwilio ffyrdd **amgen** o weithio.
- **DEL** blaenoriaethu'r hyn y mae'r llywodraeth yn ei wneud i **ddileu** gweithgareddau llai effeithiol.

## Roedd ein cyfweliadau ag arweinwyr y sector cyhoeddus yn datgelu eu gwersi eu hunain o'r tu mewn i'r sector ar gyfer y ffordd i sero net.

Gyda'i gilydd, mae'r cyfweliadau'n cyfeirio at bum argymhelliad:

1. **Ymgysylltu â'r cyhoedd am y daith hir.** Mae gan y cyhoedd ran hanfodol i'w chwarae wrth gyflawni sero net ac mae angen iddo ddeall y goblygiadau a'r disgwyliadau ar aelwydydd. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i'r llywodraeth sefydlu cynllun cyfathrebu cenedlaethol, aml-ddegawd i ymgysylltu â'r cyhoedd, annog newid ymddygiad, a'i baratoi ar gyfer y ffordd i sero net.

2. **Sicrhau bod sero net yn flaenoriaeth sector cyfan ac yn ganolog i benderfyniadau sy'n hanfodol i fusnes.** Dywedodd arweinwyr wrthym fod angen i sero net fod yn fwy cydgysylltiedig ar draws y sector ac wedi'i sefydlu fwy yn y llywodraeth. Mae hynny'n awgrymu y dylid gosod sero net yn ganolog i ddylunjad rhaglenni sy'n hanfodol i fusnes fel bod pob penderfyniad mawr yn cyfuno cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd. Gallai hefyd olygu golwg ar draws y sector ar faterion fel trawsnewid fflydoedd a fyddai'n caniatáu ar gyfer safbwynt system gyfan, blaenoriaethu ac eglurder.

3. **Gosod map trywydd gyda chynlluniau cyllido ac ariannu hirdymor.** Ar draws y sector, dywedodd arweinwyr wrthym eu bod eisiau eglurder ynghylch cyllid ar gyfer sero net. Fel y dadleuodd rhai, dylai'r llywodraeth nodi cynllun aml-ddegawd gyda threfniadau cyllid ac ariannu manwl a fyddai'n rhoi eglurder i'r sector cyhoeddus ac yn meithrin hyder buddsoddwyr preifat. Gellid adolygu cynllun hirdymor yn rheolaidd a'i addasu yn ôl yr angen.

4. **Ysgogi sero net drwy'r gadwyn gyflenwi.** O ystyried bod swm sylweddol o allyriadau mewn cadwyni cyflenwi, bydd angen i'r sector cyhoeddus fuddsoddi mewn rheoli'r gadwyn gyflenwi, caffael, rheoli contractau a gweithgareddau masnachol eraill i ysgogi newid. Yn bwysig, gallai caffael sicrhau gwerth cymdeithasol ychwanegol drwy fanteisio i'r eithaf ar wariant cyhoeddus fel bod cyflenwyr yn chwarae rhan gliriach yn y siwrnai i sero net.

5. **Cefnogi sgiliau gwyrdd trwy ymyrraeth yn y farchnad.** Dywedodd arweinwyr addysg bellach wrthym fod angen i sgiliau gwyrdd gyrraedd 'trobwynt' o ran cyflenwad a galw. Gallai'r llywodraeth gyflymu hynny drwy gynyddu ei buddsoddiad yn y farchnad sgiliau, gan alluogi awdurdodau cyfun a lleol i ddod â darparwyr addysg, busnesau a masnachau ynghyd i ddiffinio'r sgiliau sydd eu hangen ac ariannu gweithwyr proffesiynol drwy eu hyfforddiant.



# Cysylltiadau



**Liz Jones**
Uwch Bartner i Gymru
Deloitte

lizjones@deloitte.co.uk
www.linkedin.com/in/liz-jones-deloitteuk



**Ian Howse**
Uwch Bartner i Gymru
Deloitte

ihowse@deloitte.co.uk
www.linkedin.com/in/ian-howse



**Ed Roddis**
Pennaeth Ymchwil y Sector Cyhoeddus
Deloitte

eroddis@deloitte.co.uk
@EdRoddis



**Emma Horrell**
Rheolwr Mewnwelediad
Llywodraeth a'r Sector Cyhoeddus
Deloitte

ehorrell@deloitte.co.uk
www.linkedin.com/in/echorrell



**Charlotte Pickles**
Cyfarwyddwr
Reform

charlotte.pickles@reform.uk
@ce_pickles

Os hoffech chi gael gwybod mwy am yr adroddiad, cysylltwch ag **Ed Roddis** neu **Emma Horrell**.



Deloitte.

This publication has been written in general terms and we recommend that you obtain professional advice before acting or refraining from action on any of the contents of this publication. Deloitte LLP accepts no liability for any loss occasioned to any person acting or refraining from action as a result of any material in this publication.

Deloitte LLP is a limited liability partnership registered in England and Wales with registered number OC303675 and its registered office at 1 New Street Square, London EC4A 3HQ, United Kingdom.

Deloitte LLP is the United Kingdom affiliate of Deloitte NSE LLP, a member firm of Deloitte Touche Tohmatsu Limited, a UK private company limited by guarantee ("DTTL"). DTTL and each of its member firms are legally separate and independent entities. DTTL and Deloitte NSE LLP do not provide services to clients. Please see www.deloitte.com/about to learn more about our global network of member firms.

© 2024 Deloitte LLP. All rights reserved.

Designed and produced by 368 at Deloitte. J31902